Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Higher Education Wales Cymru Addysg Uwch

undebcenedlaetholmyfyrwyrcymru
nationalunionofstudentswales

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: Dydd Mercher, 12 Medi 2007

Teitl: Myfyrwyr yng Nghymru yn dangos bodlonrwydd â chyrsiau

Dengys y trydydd Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol blynyddol (AMC) bod y rheiny sydd mewn addysg uwch yng Nghymru yn parhau i fod yn fodlon iawn o ran eu profiad fel myfyrwyr.

Mae AMC 2007 yn dangos bod 83 y cant o fyfyrwyr yng Nghymru yn fodlon â'u profiad, sy'n parhau uwchlaw'r ffigur a gyflawnwyd ar gyfer y DU gyfan.

Roedd canlyniadau cyson uchel eleni yn dangos gwell ganlyniadau yn ogystal ar gyfer cymorth academaidd ac adnoddau dysgu.

Mae'r canlyniadau ar gyfer Cymru wedi dangos sefydlogrwydd dros dair blynedd cynnal yr arolwg.

Cwestiynau		**AMC 2005**	**AMC 2006**	**AMC 2007**
		% cytuno		
1-4	Yr addysgu ar fy nghwrs	82	83	82
5-9	Asesiad ac adborth	62	63	62
10-12	Cymorth academaidd	72	73	74
13-15	Trefnu a rheoli	71	70	71

16-18	Adnoddau dysgu	79	80	81
19-21	Datblygiad personol	77	78	77
22	Bodlonrwydd cyffredinol	82	83	83

Dywedodd Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau: “Mae hwn yn newyddion rhagorol i sefydliadau Addysg Uwch Cymru, ac mae’n profi y gall myfyrwyr y DU fod yn hyderus yn yr addysgu o safon uchel a’r profiad cyfan fel myfyrwyr y byddant yn ei gael yng Nghymru.

“Mae rhagoriaeth y ddarpariaeth addysg yn rhywbeth y mae’n rhaid i bawb ohonom ymdrechu i’w sicrhau, ac mae’r canlyniadau hyn yn profi ein bod yn parhau i symud yn y cyfeiriad iawn”.

Dywedodd Amanda Wilkinson, Cyfarwyddwr Addysg Uwch Cymru, y corff sy’n cynrychioli Is-Gangellorion a Phenaethiaid yng Nghymru, “Mae’r canlyniadau hyn yn cadarnhau eto ymrwymiad parhaus ein sefydliadau addysg uwch i gynnig profiad o safon uchel i fyfyrwyr, ac maent yn dystiolaeth bellach o’r enillion sylweddol y mae prifysgolion yn eu gwneud ar fuddsoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru.

“Rhaid i ni beidio ag anghofio bod buddsoddiad parhaol yn y sector AU yn hanfodol os yw Sefydliadau Addysg Uwch Cymru am barhau i ddenu a chefnogi myfyrwyr lleol a chenedlaethol wrth barhau i fod yn gystadleuol yn fyd-eang.”

Dywedodd yr Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: “Unwaith eto, mae’r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol wedi cadarnhau, yn annibynnol, y lefel uchel o fodlonrwydd ag addysg uwch yng Nghymru. Mae hyn yn dangos bod prifysgolion a cholegau yng Nghymru yn cymryd eu rôl o ddifrif i gynnig profiad gwerthfawr i fyfyrwyr.”

Dywedodd Ben Gray, Llywydd UCM Cymru: “Mae Undeb Cenedlaethol Myfyrwyr Cymru yn falch iawn o weld bod myfyrwyr ar draws y wlad yn hapus ag ansawdd eu haddysg; edrychaf ymlaen at weithio gyda’n sefydliadau partner i gynnal yr ansawdd hwn yn wyneb cost gynyddol addysg yn y blynyddoedd i ddod.”

Bydd data'r AMC ar gael ar wefan newydd, Unistats.com. Bydd y wefan yn helpu myfyrwyr sy'n ymchwilio i fynediad i addysg uwch i gymharu gwybodaeth am bynciau a sefydliadau gwahanol.

Mae'r arolwg yn cwmpasu myfyrwyr addysg uwch yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon ac mewn wyth prifysgol yn yr Alban. Yn 2007, cafodd myfyrwyr sy'n astudio pynciau GIG – sydd wedi'u cynnwys yn yr arolwg ers ei gychwyn – eu cynnwys hefyd ar gyfer y DU gyfan.

Nodiadau

Cyswllt i gael mwy o wybodaeth

CCAUC: Emma Raczka, Rheolwr Cyfathrebu, 029 2068 2225 emma.raczka@hefcw.ac.uk

Yr Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC) - cefndir

1. Mae'r canrannau a ddefnyddiwyd yn y datganiad hwn i'r wasg yn ymwneud â myfyrwyr sydd wedi cofrestru gyda sefydliadau addysg uwch Cymru.

2. Bydd canlyniadau'r Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC) ar gael yn **http://www.hefce.ac.uk/learning/nss/data/2007** o ganol dydd, ddydd Mercher, 12 Medi..

3. Mae'r AMC yn cwmpasu myfyrwyr addysg uwch yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Fe wnaeth wyth o brifysgolion yr Alban a Phrifysgol annibynnol Buckingham gymryd rhan yn arolwg 2007 yn ogystal.

4. Cynhaliwyd yr AMC gan Ipsos MORI. Bydd y data ar gael ar wefan Unistats sy'n cael ei datblygu a'i chynnal gan UCAS a Hotcourses. Bydd gwefan Unistats yn cyflwyno'r data ar ffurf y gall darpar fyfyrwyr ei defnyddio i lywio'u dewis o ran beth i'w astudio ac ymhle i astudio.

5. Oherwydd gwahaniaethau mewn trefniadau sicrhau ansawdd mewn rhannau gwahanol o'r DU, nid yw rhai mathau o wybodaeth yn cael eu cyhoeddi ar gyfer pob sefydliad. Cafodd y rhan fwyaf o fyfyrwyr a oedd gerllaw gorffen cyrsiau israddedig (graddau baglor, graddau sylfaen, tystysgrifau a diplomâu addysg uwch) eu gwahodd i gymryd rhan, ac roedd dros 290,000 o fyfyrwyr yn gymwys i gyfranogi. Ymatebodd dros 177,000 o fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser, sef cyfradd ymateb o 60%. Efallai nad oedd cyfran fach iawn o fyfyrwyr rhan-amser a gwblhaodd yr arolwg yn eu blwyddyn olaf.

Arolwg Myfyrwyr Cenedlaethol (AMC) - Unistats

Bydd Unistats yn darparu gwybodaeth i ddarpar fyfyrwyr na fyddent yn gallu ei chael yn unrhyw le arall mewn fformat hygyrch, sy'n gyfeillgar i'r defnyddiwr. Bydd y safle yn galluogi defnyddwyr i:

- Gael gwybod barn dros 177,000 o fyfyrwyr am ansawdd eu profiad addysg uwch
- Cymharu pwyntiau UCAS a gwybodaeth arall ar gyfer pynciau a sefydliadau gwahanol
- Canfod canfyddiadau myfyrwyr diweddar a'r mathau o swyddi y maent yn eu gwneud chwe mis ar ôl gorffen

Mae lansiad gwefan Unistats wedi'i symud yn ôl o 12 Medi i alluogi gwneud newidiadau i'r wefan yn dilyn profion gan ddefnyddwyr a gynhaliwyd fel rhan o'r broses ddylunio. Mae newidiadau wrthi'n cael eu gwneud ar hyn o bryd i sicrhau bod y wefan yn addas i'r diben, er mwyn cynorthwyo darpar fyfyrwyr i wneud dewisiadau ynghylch beth i'w astudio ac ymhle i astudio.

Mae Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad sy'n gyfrifol am weinyddu cyllid y trefnir ei fod ar gael gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi:

- darpariaeth addysg sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymgymryd ag ymchwil gan SAUau; a
- darpariaeth cyrsiau addysg uwch rhagnodedig mewn sefydliadau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol athrawon i athrawon ysgol a chomisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â'i gyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion, dyheadau a phryderon cyllid y sector addysg uwch yng Nghymru.